

Cyngor Cymuned Llanfrothen  
**COFNODION CYFARFOD CHWEFROR 2020**  
3 Chwefror 2020 7.30 Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen

**1. Presennol**

Rhydwen Roberts, Nia Povey, Richard Jones

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Dafydd Watts

Ymddiheuriadau: Glyn Griffiths, Llio Griffiths

**2. Datgan Diddordeb**

Dim

**3. Cadarnhau Cofnodion**

Cadarnhawyd Cofnodion 6 Ionawr 2020.

Cadarnhawyd Cofnodion 4 Tachwedd 2020 yn unol â'r diwygiadau a wnaethpwyd.

**4. Dogfennau Polisi Un Llais Cymru**

Cafwyd trafodaeth ar yr amrywiol ddogfennau polisi a dderbyniwyd gan Un Llais Polisi. Mae'r rhain yn niferus ac yn cynnwys:-

- Polisi Hyfforddiant
- Polisi Tân
- Polisi Diogelu Data
- Polisi Iaith
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Cyfryngau Cymdeithasol
- Polisi Cwynion

Cytunwyd i ymgorffori'r polisiau dros gyfnod o amser. Bydd angen eu teilwra at ddefnydd y cyngor cymuned yn gyntaf.

Cytunwyd y byddai aelodau yn ystyried y polisiau dros y mis nesaf, fel ei bod hi'n bosibl gwybod erbyn cyfarfod mis Mawrth, os yw'r newidiadau

sydd eu hangen i wneud y polisiau yn gyfredol yn rhai sylweddol neu yn syml.

Bydd angen cyfieithu unrhyw bolisi sy'n cael ei gymeradwyo.

Cytunwyd y byddai'n syniad da cael rhwy fath o Ddatganiad Pwrpas, (Mission Statement), ar gyfer y cyngor cymuned – rhyw hanner tudalen yn crynhoi pwrpas a gweledigaeth y cyngor cymuned.

Ceir anghysondeb yn enw'r cyngor cymuned. Yn y gorffennol, mae'r enw Cyngor Cymdeithas Llanfrothen wedi bod yn cael ei ddefnyddio, ond yn ddiweddar defnyddir Cyngor Cymuned Llanfrothen. Mae angen cytuno pa enw a ddylid ei ddefnyddio.'

## **5. Materion Ariannol**

**5.1** Cyflog Clerc, Ionawr 2020 £214.00

**5.2** TWE Ionawr 2020 £53.40

**5.3** Anfoneb Cambrian News, hysbyseb cyntaf Tachwedd 2019 - £288 – ad-dalu'r Clerc

**5.4** Anfoneb Cambrian News, ail hysbyseb, Ionawr 2020 - £144 – ad-dalu'r Clerc

**5.5** Anfoneb Dunn & Ellis, Ionawr 2020, costau TWE £54.00

Cymeradwywyd talu'r uchod.

## **6. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Mawrth 2 2020.

